Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



# Rheolwr Technegol a Rheolwr Prosiectau'r Ystafell Reoli

## Pennaeth yr Ystafell Reoli

**Pecyn Gwybodaeth Recriwtio**

# Cynnwys


Croeso gan Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol. . . 3

Pwy ydym ni. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 4

Gogledd Cymru; Lle i fyw a gweithio ynddo, ac i ymweld ag ef 6

Y Swydd. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 7

Beth allwn gynnig i chi. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 8

Disgrifiad Swydd . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 9

Manyleb y Person . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 13

Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 15

Llinell Amser Recriwtio. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 16

Sut i ymgeisio. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 16




# Croeso gan Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol




Pan fydd pobl yn meddwl am y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu i feddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i alwadau brys. Er bod hyn yn wir, mae'r swyddi a'r cyfrifoldebau o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn mynd yn llawer pellach na'r ddelwedd draddodiadol hon.

Yn ogystal â Diffoddwyr Tân, mae'r Gwasanaeth yn cyflogi pobl mewn nifer o wahanol swyddi amrywiol a heriol, ac mae'r gwaith hollbwysig sy'n cael ei wneud y tu ôl i'r llenni yr un mor hanfodol i helpu i wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw ynddo, i weithio ynddo ac i ymweld ag ef.

Nid yn unig y mae Staff yr Ystafell Reoli yn ateb galwadau brys ac yn anfon peiriannau tân allan, maen nhw'n chwarae rhan hanfodol wrth ddod â digwyddiadau i ben yn llwyddiannus wrth ddefnyddio technegau trin galwadau arbenigol. Mae rôl y Gwasanaeth Tân wedi newid cryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf ac mae rôl Gweithredwr yr Ystafell Reoli wedi addasu i adlewyrchu'r gofynion newydd sy'n wynebu Gwasanaeth Tân ac Achub modern.

Rhaid i staff yr Ystafell Reoli fod yn barod i roi cyngor er mwyn achub bywydau i bobl sy'n ffonio, cyfleu gwybodaeth a negeseuon hanfodol, ymateb i geisiadau gan y Swyddog â Gofal am ddigwyddiad, cysylltu â gwasanaethau brys a sefydliadau eraill a chadw golwg ar yr adnoddau brys sydd ar gael. Er mwyn gwneud hyn mae angen cefnogaeth dechnegol arbenigol a chefnogaeth ddatblygu ar gyfer Systemau Ystafell Reoli GTAGC yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth yr Ystafell Reoli ar y cyd â Rheolwr Systemau'r Ystafell Reoli. Mae hyn yn sicrhau bod GTAGC yn cael budd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac yn ei defnyddio mewn ffordd sy'n gwneud Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mor effeithlon a chost-effeithiol ag sy'n bosibl. Ein gwerthoedd sylfaenol yw ymdrechu tuag at ragoriaeth, gwasanaethu cymunedau Gogledd Cymru a thrin pobl yn dda. Rydym eisiau i bobl sydd â'r un gwerthoedd ymuno â'n tîm i'n helpu ni i barhau i wneud Gogledd Cymru yn lle diogel i fyw ynddo, gweithio ynddo ac ymweld ag ef.

# Pwy ydym ni

Yng Ngwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru, ein pwrpas yw Atal, Amddiffyn ac Ymateb. I wneud hyn rydym yn cyflogi mwy na 850 o staff ym maes gweithredol a rolau cefnogi.

Rydym yn helpu i amddiffyn ardal sy'n gorchuddio tua 2,400 milltir sgwâr a poblogaeth breswyl o dros 700,000 o bobl, yn ogystal a channoedd o miloedd o ymwelwyr sy'n teithio i mewn ac allan o Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydyn ni'n mynd i oddeutu 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau heblaw tan megis gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a digwyddiadau llifogydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn mynychu tua 2,000 o alwadau brys sy'n troi allan i fod yn alwadau diangen.

Rydym yn gwneud gwaith atal tan helaeth trwy ymweld a phobl yn eu cartrefi, mynychu digwyddiadau, ymgysylltu a phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu a hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb gweithredol yn y cyfryngau, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae rhan arall o'n gwaith mewn rôl gorfodi diogelwch tan, felly rydyn ni'n ymweld busnesau a gweithleoedd i sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol amdan yr adeiladau hynny'n cadw eu trefniadau diogelwch tan i fyny i afon.

Mae Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio. Rydym yn cynnig diwylliant cefnogol lle rydym yn gweithio'n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.

Am fwy o wybodaeth am y Gwasanaeth ewch i [wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru].



# Ein Gwerthoedd Craidd

GWNEUD GOGLEDD CYMRU'N LLE MWY DIOGEL I FYW, GWEITHIO AC YMWELD AG O

## Gwasanaethu'r gymuned

**Mae amddiffyn ein cymunedau'n ganolog i bopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy weithio gyda'n partneriaid a grwpiau eraill i leihau risg a bod yn atebol i'r bobl yr ydym ni'n eu gwasanaethu.

## Pobl

**Rydym ni'n gwerthfawrogi'n gilydd -**

trwy arfer tegwch a pharch, cefnogi datblygiad personol, cydnabod teilyngdod, ymrwymo i onestrwydd, cywirdeb a chyd ymddiriedaeth.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Rydym ni'n galluogi pobl i gyrraedd eu llawn botensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau -**

trwy werthfawrogi gwahaniaethau, hyrwyddo cyfle cyfartal, herio rhagfarn a chamwahaniaethu.

## Ymdrechu dros ragoriaeth

**Rydym ni bob amser yn ymdrechu i wneud ein gorau glas ym mhopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy fod yn arloesol a phen agored, croesawu adborth gan eraill, dysgu o brofiad, cydnabod cryfderau yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygu.



# Gogledd Cymru; Lle i fyw a gweithio ynddo, ac i ymweld ag ef

Mae rhanbarth Gogledd Cymru yn cynnwys Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i'w gynnig, p'un a ydych yn chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy'n cael ei hystyried yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y Deyrnas Unedig, lawer i'w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae rhywbeth i bawb ei fwynhau. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n fawr at yr economi leol gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu'r gwahanol ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn, o linellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr i deithiau cerdded mwy hamddenol i archwilio trefi a chefn gwlad neu ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Tra bod Gogledd Cymru yn agos at natur ac â mannau agored cyfagos, y mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr yng Ngogledd-Orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y Deyrnas Unedig, gyda threnau uniongyrchol i Lundain (mewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd ffermwyr yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a'r diodydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. Mae digonedd o leoedd bwyta yn defnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, gan gynnwys pysgod sydd newydd eu dal, cig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, gyda rhywbeth i weddu i bawb, gan gynnwys bwytai ysblennydd, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae'r Cymry'n llawn angerdd am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae Eisteddfodau sy'n llawn cerddoriaeth, barddoniaeth a chelf yn cael eu cynnal yn flynyddol. Maent yn cynnig llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, y celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'r Eisteddfod, mae'r digwyddiadau'n gynhwysol i bawb felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i allu ymweld a mwynhau'r diwrnod. Anogir pobl o bob oed a gallu, gan gynnwys dysgwyr Cymraeg, i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gyda'r Eisteddfod Ryngwladol yn Llangollen yn cael ei chynnal yn flynyddol ym mis Gorffennaf, gan ddod â chyfranogwyr o bob cwr o'r byd at ei gilydd i ddathlu'r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a'r celfyddydau mewn un lle.

# Y Swydd



Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mae pawb yn cyfrannu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd i helpu i warchod ein cymunedau a'r amgylchedd naturiol. Mae technoleg yn elfen hollbwysig o sut mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno ei weithgareddau o ddydd i ddydd.

Rydym yn awyddus i benodi Rheolwr Technegol a Rheolwr Prosiect i'r Ystafell Reoli, a fydd yn darparu cefnogaeth dechnegol arbenigol, ac o ran datblygu, ar gyfer Systemau Ystafell Reoli GTAGC yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth yr Ystafell Reoli ar y cyd â Rheolwr Systemau'r Ystafell Reoli.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn sicrhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael budd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac yn ei defnyddio mewn ffordd sy'n ei wneud mor effeithlon a chost-effeithiol ag sy'n bosibl. Byddwch yn Rheolwr Prosiect ar brosiectau technegol amrywiol yr Ystafell Reoli a'r adran TGCh a byddwch yn ymgymryd â thasgau rheoli prosiect technegol, ymchwil a dadansoddi yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth yr Ystafell Reoli. Yn ogystal, byddwch yn bwynt cyswllt o fewn yr Ystafell Reoli mewn perthynas ag achrediad, polisi a gweithdrefn diogelwch Systemau'r Ystafell Reoli.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus o leiaf ddwy flynedd o brofiad yn gweithio ar brosiectau Ystafell Reoli a TGCh mawr, a phrofiad o reoli contractwyr yn ystod camau gweithredu a chyflawni prosiectau. Os oes gennych wybodaeth a phrofiad blaenorol o weithredu polisi, strategaeth a monitro perfformiad yna byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Dylai ymgeiswyr fod â phrofiad ymarferol o gynhyrchu adroddiadau a dadansoddi gwybodaeth reoli. Rhaid i ddeiliad y swydd allu casglu a dadansoddi gwybodaeth reoli a chyflwyno canfyddiadau i uwch reolwyr a gallu cyflwyno atebion i unrhyw broblemau a all godi. Efallai y bydd gofyn i chi weithio mewn gwahanol leoliadau sy'n perthyn i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth yr Ystafell Reoli.

Sylwch fod y swydd hon yn destun Archwiliad Fetio Lefel 2 llwyddiannus gan yr Heddlu a geirdaon boddhaol.



# Beth allwn gynnig i chi

## Cyflog

GTAGC Gradd 09
Cyflog Sylfaen: Dechrau ar £42,839 y flwyddyn, gan godi i £46,142 y flwyddyn

## Oriau gwaith

Mae'r swydd hon yn seiliedig ar weithio 37 awr yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

## Lleoliad gwaith

Mae'r swydd wedi'i lleoli yn Y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd yn Llanelwy gyda'r potensial i wneud rhywfaint o waith o bell neu o leoliadau eraill y gwasanaeth tân, felly bydd angen teithio i leoliadau eraill yn ardal y Gwasanaeth, gan ddefnyddio cerbydau'r gwasanaeth. Mae cael trwydded yrru gyfredol a llawn yn y DU yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Rydym hefyd yn cynnig llawer iawn o hyblygrwydd ac rydym yn ceisio cymaint â phosibl i gefnogi staff i gydbwyso eu gwaith a'u bywyd cartref. Mae gennym bolisi gweithio ystwyth i hwyluso gweithio rhithwir a gweithio gartref lle bo hynny'n ymarferol ar gyfer y rôl, a gellir trafod hyn ymhellach yn ystod y cyfweliad.

## Manteision y swydd

- Hawl gwyliau blynyddol hael, yn dechrau ar 25 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal â gwyliau cyhoeddus
- Cynllun Oriau Hyblyg sy'n galluogi staff i weithio'n hyblyg
- Darperir gwisg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Mynediad at Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y mae'r cyflogwr yn cyfrannu ato
- Byddwn yn rhoi hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i chi er mwyn datblygu eich potensial
- Cefnogaeth iechyd, ffitrwydd a lles, gan gynnwys iechyd galwedigaethol, cefnogaeth cydweithwyr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapïau corfforol a mynediad i gampfeydd y Gwasanaeth
- Amrywiaeth o fuddion ychwanegol megis cynllun beicio i'r gwaith a mynediad at ostyngiadau gan gannoedd o fanwerthwyr a darparwyr hamdden a gwasanaethau.

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Swyddog Technegol yr Ystafell Reoli |
| **Adran** | Ystafell Reoli |
| **Yn atebol i** | Pennaeth yr Ystafell Reoli |
| **Lleoliad** | Y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd, Ystafell Reoli, Llanelwy |

## Diben y Swydd yn Gyffredinol

Darparu cefnogaeth dechnegol arbenigol a chefnogaeth ddatblygu ar Systemau Ystafell Reoli GTAGC yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth yr Ystafell Reoli ar y cyd â Rheolwr Systemau'r Ystafell Reoli. Sicrhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn cael budd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac yn ei defnyddio mewn ffordd sy'n gwneud y Gwasanaeth mor effeithlon a chost-effeithiol ag sy'n bosibl. Bod yn Rheolwr Prosiect ar brosiectau technegol amrywiol yr Ystafell Reoli a'r adran TGCh. Ymgymryd â thasgau rheoli prosiectau technegol, ymchwil a dadansoddi yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth yr Ystafell Reoli. Bod yn bwynt cyswllt o fewn Ystafell Reoli GTAGC mewn perthynas ag achrediad, polisi a gweithdrefn diogelwch Systemau'r Ystafell Reoli.

## Y Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Darparu arweiniad a chefnogaeth dechnegol arbenigol uwch i Reolwr Systemau'r Ystafell Reoli a chymorth technegol i staff yr Ystafell Reoli.
2. Ar y cyd â Rheolwr Systemau'r Ystafell Reoli, datrys problemau a diffygion System yr Ystafell Reoli o fewn y Gwasanaeth, a lle bo'n briodol, cysylltu â sefydliadau trydydd parti i gael cefnogaeth ail a thrydedd haen ar faterion technegol cymhleth.
3. Gweithio gyda'r tîm TGCh i ddatrys pryderon yn ymwneud â diogelwch technegol a gwneud cynnydd yn y gwaith o ennill achrediadau diogelwch technegol

4. Gwerthuso a rhoi cyngor ar dechnolegau sy’n datblygu ym maes gwaith yr Ystafell Reoli.
5. Goruchwylio prynu, datblygu a chefnogi systemau’r Ystafell Reoli, megis y system Reoli, Systemau Rheoli Cyfathrebu Integredig, Gwasanaethau Mapio’r Ystafell Reoli, Systemau Recordio Lleisiau a Systemau Cofnodi a’u rhyngwynebau cysylltiedig.
6. Sicrhau y cedwir at y safonau ansawdd, diogelwch a thechnegol y cytunwyd arnynt, a bod arfer gorau TGCh yn cael ei fabwysiadu ym mhob rhan o’r Ystafell Reoli.
7. Gweithredu fel Arweinydd Technegol yr Ystafell Reoli, ar ran y Gwasanaeth mewn perthynas â phrosiectau’r Ystafell Reoli, bod yn rheolwr prosiect a darparu sgiliau technegol arbenigol, gan sicrhau bod dogfennau’r prosiect yn cael eu creu a’u cynnal.
8. Goruchwylio pecynnau gwaith cymhleth yn ystod cylch bywyd prosiectau, cynorthwyo gyda’r gwaith o greu a chwblhau cynlluniau prosiectau, achosion busnes a phecynnau gwaith. Cydgysylltu a goruchwylio’r gwaith o ddarparu pecynnau gwaith yr Ystafell Reoli gan gyflenwyr mewnol ac allanol.
9. Nodi problemau ac awgrymu atebion posibl o ran gweithredu prosiectau technegol yr Ystafell Reoli. Nodi a chynllunio ar gyfer gofynion a gwelliannau i gynlluniau prosiect. Paratoi deunydd cyngor, dogfennau briffio, cymryd rhan mewn cyfarfodydd, ynghyd â chymryd nodiadau technegol.
10. Darparu cefnogaeth dechnegol wrth gynnal cyfarfodydd adolygu gwasanaethau parhaus o ran systemau’r Ystafell Reoli.
11. Rhoi cyngor i Bennaeth yr Ystafell Reoli ar ddarpariaeth, costau, argaeledd ac ymarferoldeb gwasanaethau TGCh ar gyfer systemau’r Ystafell Reoli, gan sicrhau bod cytundebau lefel gwasanaeth, contractau a thrafodaethau gyda chyflenwyr mewnol ac allanol wedi’u hanelu at ddiwallu anghenion busnes y Gwasanaeth.
12. Yn gyfrifol am fonitro cyflwyno’r gwasanaethau yn erbyn targedau a sicrhau bod cyflwyniad y gwasanaethau yn rhoi gwerth am arian o ran safonau, ansawdd, effeithlonrwydd, diogelwch a pherfformiad a’u bod yn gosteffeithiol.
13. Cynhyrchu dogfennaeth rheoli systemau technegol a dogfennaeth adrodd am ddiffygion, a diwygio prosesau a gweithdrefnau technegol ar gyfer pob elfen o wasanaethau’r Ystafell Reoli.

14. Cynhyrchu a chynnal y polisïau technegol a'r dogfennau technegol ategol sy'n ymwneud â Systemau'r Ystafell Reoli.

15. Darparu pwynt cyswllt technegol ar gyfer contractau'r Ystafell Reoli gan gynnwys:
    - Cynghorydd Tactegol a Gweinyddwr Airwave
    - ESMCP Rhaglen Gyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys - Arweinydd Prosiect
    - Systemau Gwybodaeth Graffigol (Arolwg Ordnans)
    - Cod Cysylltiadau (Y Swyddfa Gartref)
    - Contractwyr sy'n cefnogi systemau'r ystafell reoli

16. Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r radd a'r rôl a amlinellwyd yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth yr Ystafell Reoli.

## Cyfrifoldeb Goruchwylio

Goruchwylio contractwyr a chyflenwyr trydydd parti ar gyfer darparu offer a meddalwedd System yr Ystafell Reoli, rheoli gwasanaethau ac ymgynghori arbenigol.

Trefnu, rheoli a chyfarwyddo timau o staff GTAGC a/neu gontractwyr trydydd parti ar sail ad-hoc wrth gyflwyno pecynnau gwaith System yr Ystafell Reoli.

Rheoli timau o staff enwebedig GTAGC yn uniongyrchol wrth ddarparu Prosiectau TGCh a'r Ystafell Reoli.

## Cyfrifoldeb Ariannol

Cymeradwyo archebion hyd at £20,000 o gyllidebau sy'n gysylltiedig â System yr Ystafell Reoli.

Bod yn gyfrifol am Gyllideb Cynnal a Chadw yr Ystafell Reoli (cyfanswm cyllideb refeniw o £35,000).

Darparu cyngor technegol i Bennaeth yr Ystafell Reoli i gefnogi penderfyniadau cyllidebol ar gyfer codau cyllideb eraill yr Ystafell Reoli.

Fel Rheolwr Prosiectau, bod yn gyfrifol am geisiadau am gyllideb Cyfalaf, rheoli cyllidebau a ddarperir, a rheoli prosesau caffael prosiectau.

## Cysylltiadau y tu Allan i'w His-adran eu Hunain

Pob adran fewnol, siroedd a gorsafoedd o fewn GTAGC yn ymwneud â materion System yr Ystafell Reoli yn rheolaidd.

Cyflenwyr, staff cynnal a chadw, staff cefnogi a chontractwyr yn aml, o ran materion System yr Ystafell Reoli

Cysylltu â gwasanaethau eraill, awdurdodau a sefydliadau allanol

## Gofynion Iaith

Cymraeg Lefel 2 – Siarad a Gwrando, neu'r ymrwymiad i gyflawni hyn gyda chefnogaeth o fewn cyfnod prawf.

**Mae Cymraeg Lefel 2 yn gofyn eich bod yn gallu;** Deall yn fras sgyrsiau rhwng pobl yn y gwaith. Ymateb i geisiadau syml sy'n gysylltiedig â'r swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml. Mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyn belled â bod y pwnc yn gyfarwydd. Deall cyfarwyddiadau pan fydd iaith syml yn cael ei defnyddio.

## Camau Gwirio Cyn Cyflogi / Gofynion Penodol

Cliriad diogelwch NPPV Lefel 2

## Arall

Gweithio dan do ac efallai y bydd angen gweithio mewn gwahanol leoliadau Y Gwasanaeth Tân ac Achub yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth yr Ystafell Reoli.

Cyfrifoldeb holl staff yw diogelu, a disgwylir i bawb fod yn wyliadwrus ac yn rhagweithiol wrth sicrhau diogelwch a lles eraill.

# Manyleb y Person

## Cymwysterau, Gwybodaeth a Phrofiad

| **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
|---|
| Cymhwyster lefel gradd mewn pwnc cysylltiedig a/neu brofiad proffesiynol perthnasol. |
| Cymhwyster rheoli gyda phrofiad blaenorol o reoli staff mewn amgylchedd Ystafell Reoli neu TGCh. |
| O leiaf dwy flynedd o brofiad yn gweithio ar brosiectau Ystafell Reoli a TGCh mawr. |
| Profiad o reoli contractwyr yn ystod camau gweithredu a chyflawni prosiectau. |
| Cymhwyster Ymarferydd Prince 2. |
| Cymhwyster Llyfrgell Seilwaith Technoleg Gwybodaeth (ITIL) |
| Gwybodaeth ymarferol dda o systemau, systemau gweithredu a chymwysiadau sy’n seiliedig ar Microsoft Server, gan gynnwys Windows Server, SQL Server, Exchange Server, Active Directory, Windows ac Office. |
| Gwybodaeth am weithredu polisi, strategaeth a monitro perfformiad. |
| Profiad gwaith o gynhyrchu adroddiadau a dadansoddi gwybodaeth reoli. Rhaid i ddeiliad y swydd allu casglu a dadansoddi gwybodaeth reoli a chyflwyno canfyddiadau i uwch reolwyr a gallu cyflwyno atebion i unrhyw broblemau a all godi. |
| **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy’n bodloni’r holl feini prawf hanfodol |
| Gwybodaeth am y gwasanaethau brys. |
| Gwybodaeth am egwyddorion Diogelwch Gwybodaeth mewn perthynas â Systemau Ystafell Reoli |
| Gwybodaeth am ddatrysiadau Ystafell Reoli, gan gynnwys ICCS (System Rheoli Cyfathrebu Integredig) a systemau Gorchymyn a Rheoli. |

## Sgiliau

| |
|---|
| **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| Y gallu i weithio heb oruchwyliaeth a defnyddio eich menter eich hun er mwyn cwrdd â therfynau amser, ar draws ystod eang o weithgareddau mewn amgylchedd Ystafell Reoli, wrth weithio o fewn Polisïau'r Gwasanaeth Tân. |
| Gallu gyrru ac yn meddu ar drwydded yrru lawn gyfredol. |
| **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol |
| Gwerthfawrogiad a dealltwriaeth fanwl o weithrediadau Ystafell Rheoli Argyfwng. |
| Yn gallu hwyluso grwpiau o bobl mewn amgylchedd gweithdy er mwyn casglu gwybodaeth yn effeithiol. |
| Y gallu i weithredu mewn amgylchedd llwyth gwaith dwys a blaenoriaethu tasgau yn ôl yr angen gydag agwedd hyblyg tuag at weithio. |
| Unigolyn all ysgogi ei hun gyda sgiliau cyfathrebu rhagorol. |
| Hyblygrwydd o ran oriau gwaith. |

*Evidence of qualifications will be requested and verified prior to confirmation of appointment

Please Note: In order to be shortlisted for this post you will need to demonstrate that you meet all the essential criteria.

# Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, rydym yn credu y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni wedi cymryd y mater o iaith o ddifrif dros flynyddoedd lawer. Drwy gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal ac i fodloni disgwyliadau'r gymuned leol, rydym yn cydnabod y manteision cadarnhaol i'r gwasanaeth hefyd o gynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Mae achub bywydau a lleihau risg wrth wraidd ein cenhadaeth – ac mae iaith yn hanfodol i'w lwyddiant.

Mae gofyniad Cymraeg y swydd hon yn lefel 2 ac mae'r sgiliau gofynnol wedi'u nodi isod.

| **Maes Sgil** | **Gofynion Safonnau'r Iaith Gymraeg** |
|---|---|
| **Gwrando / siarad** | • Ddeall rhan helaeth o sgwrs yn y gwaith.<br>• Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â'r gwaith a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall atebion.<br>• Rhoi barn mewn modd cyfyngedig, cyn belled â bod y testun yn gyfarwydd.<br>• Deall cyfarwyddiadau pan fo iaith syml yn cael ei defnyddio. |
| **Darllen** | • Ddeall gwybodaeth ffeithiol ac arferol a chynnwys gwybodaeth anarferol ar faterion ymwneud â'ch maes gwaith, e.e. mewn llythyrau safonol, pamffledi. |
| **Ysgrifennu** | • Ysgrifennu nodiadau syml, cofnodi gwybodaeth syml ar ystod eithaf cyfyng o faterion yn ymwneud â'ch profiadau personol neu o fewn eich maes gwaith. |

# Llinell Amser Recriwtio

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau: | 12:00 ar 08/09/2025 |

# Sut i ymgeisio

I wneud cais am y swydd hon, rhaid i bob ymgeisydd lenwi ein ffurflen gais er mwyn cael eu hystyried. Mae'r ffurflen gais i'w chael ar y dudalen Swyddi Gwag Presennol ar ein gwefan. Dylid cyflwyno ffurflenni wedi'u llenwi drwy e-bost at recrwitio@tangogleddcymru.llyw.cymru

Peidiwch â chyflwyno'ch CV gyda'r Ffurflen Gais, gan mai dim ond yr wybodaeth a ddarperir ar y Ffurflen Gais fydd yn cael ei defnyddio ar y cam llunio rhestr fer.

Wrth gwblhau eich cais, ymgyfarwyddwch â'r disgrifiad swydd a manyleb y person yn y pecyn gwybodaeth hwn fel eich bod yn deall y cymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rôl. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol sydd ym manyleb y person er mwyn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer y cam nesaf. Mae p'un a fyddwch chi'n cael eich rhoi ar restr fer am gyfweliad ai peidio yn seiliedig ar yr wybodaeth a roddwch yn eich ffurflen gais.

Os oes arnoch angen unrhyw addasiadau rhesymol yn ystod y broses recriwtio, dywedwch wrthym cyn gynted ag y gallwch. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe gallech rannu adroddiad meddygol neu ddogfennaeth berthnasol sy'n amlinellu'r addasiadau a allai roi'r gefnogaeth orau ichi.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno eich cais cyn y dyddiad cau gan na fydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Os ydych yn cael unrhyw broblem cael gafael ar y ffurflen gais neu ei chwblhau, cysylltwch â'r tîm Recriwtio: recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru neu ffoniwch 01745 535 281.

# Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Rydym yn cydnabod y gall ymgeiswyr ddefnyddio offer AI neu adnoddau eraill yn ystod y broses ymgeisio. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod yr holl wybodaeth rydych chi'n ei gyflwyno yn ffeithiol gywir, yn wir, ac yn gyfan gwbl eich gwaith eich hun. Dylai eich cais adlewyrchu eich profiadau, eich syniadau a'ch llais eich hun i sicrhau ei fod yn ddilys ac yn gredadwy.

Sylwch y gellir gwrthod ceisiadau os oes tystiolaeth o lên-ladrad (plagiarism) neu or-ddibyniaeth ar gynnwys a gynhyrchir gan AI. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno syniadau, profiadau, neu ddeunydd a grëwyd gan eraill, neu gan ddeallusrwydd artiffisial, fel eich un chi.

Os cewch eich gwahodd i gyfweld, byddwch yn ymwybodol bod defnyddio offer AI wedi'i wahardd yn llwyr, gan gynnwys at ddibenion fel trawsgrifio, recordio, neu gymryd nodiadau. Gall unrhyw ddefnydd amheuol o offer o'r fath arwain at derfynu eich cyfweliad a'ch tynnu'n ôl o'r broses recriwtio.

# Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn a'r rôl hon neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn ymgeisio, mae croeso i chi gysylltu a Rheolwr yr orsaf, Julie Butler ar 01745 539216

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Mae apwyntiadau yn destun gwiriad Hawl i Waith dilys, geirda boddhaol, prawf Cyffuriau ac Alcohol, a chwblhau gwiriad Lefel 2 Fetio yr Heddlu.